

TRACY DAVIES

Ers dros 20 mlynedd, mae Tracy Davies wedi dangos ymroddiad diddiwedd i wirfoddoli ym maes nofio, gan greu argraff barhaol. Roedd Tracy'n un o sylfaenwyr brwdfrydig Clwb Nofio i oedolion Sharks Masters, ac mae hi wedi gweithio'n ddiflino i greu amgylchedd croesawgar a chefnogol i oedolion o bob gallu. Mae ei harweinyddiaeth wedi helpu'r clwb i ddod yn aelod o Nofio Cymru, cyflawni Statws Rhuban Clwb Insport o ran cynhwysiant, ac ennill achrediad Chwaraeon RhCT. Mae ei hymrwymiad yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r gwaith gweinyddol. Mae hi'n gyson yn mynd gam ymhellach drwy drefnu achlysuron, codi arian, cefnogi aelodau, a sicrhau bod nofwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn derbyn gofal. Yn dilyn sesiwn nofio dŵr agored cyntaf y clwb, aeth hi ati'n bersonol i ddarparu lluniaeth a blancedi ffoil i'r cyfranogwyr. Mae angerdd, caredigrwydd a brwdfrydedd Tracy dros hyrwyddo lles corfforol a meddyliol wedi creu cymuned lewyrchus a chynhwysol. Tracy wir yw calon y clwb.



Chwaraeon RhCT
Sport RCT

GWIRFODDOLWR
Y MIS

GORFFENNAF 2026